# PERTHYN

Hydref 2022 Rhifyn 310



Apêl Hadau Gobaith
Cyfraniad yr Ysgol Sul

# Os hoffech wybod . . .

Sawl gwaith rydych chi a finnau wedi gwrando ar eiriau Ceiriog, yr unawd enwog yna sydd wedi rhoi llwyddiant i gant a mil o gantorion dros y blynyddoedd. Geiriau ydynt o'r gerdd 'Alun Mabon', a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Oriau'r Bore*, yn rhyw fath o folawd i'r werin Gymreig.

Os hoffech wybod sut
   Mae dyn fel fi yn byw,
Mi ddysgais gan fy nhad
   Grefft gyntaf dynol ryw.
Mi ddysgais wneud y gors
   Yn weirglodd ffrwythlon ir,
I godi daear las
   Ar wyneb anial dir.

Dwi'n eich clywed chi rŵan yn ei mwmian ganu ac yn arbennig y cytgan:

Rwy'n gorwedd efo'r hwyr,
Ac yn codi efo'r wawr,
I ddilyn yr og, ar ochr y Glog,
A chanlyn yr arad goch
Ar ben y mynydd mawr.

Mae'n folawd i'r werin ond hefyd i bobl y tir, i'r amaethwr sy'n gweld ei waith nid fel swydd ond yn hytrach fel galwedigaeth. Roedd fy nhaid yn amaethwr ac yn fab i amaethwr, ond wrth i mam briodi cigydd fe ddaeth y patrwm yna o fywyd teuluol i ben. Adferwyd peth o'r bywyd yna yn ystod fy mhlentyndod a'm hieuenctid wrth i ffrindiau symud i fyw dafliad carreg o'm cartref a bu'r weithred o gynorthwyo ar y fferm, yn cario gwair a thacluso cloddiau, yn ffynhonnell ariannol trwy gydol fy mlynyddoedd coleg. Fel mae Ceiriog yn ei awgrymu, mae yna rywbeth cynhenid yn y weithred o drin y tir: rhywbeth sylfaenol, yn rhoi bod i fywyd ac yn cynnal bywyd ac mae rhywun mor ddyledus i'r rheiny sy'n byw eu bywydau mewn perthynas â'r greadigaeth.

Mae hi'n dymor Diolchgarwch am y Cynhaeaf, ac er bod yr arfer o gynnal gwasanaethau penodol yn gwanio, da dweud bod yr arferiad yn dal yn fyw ac yn arbennig felly mewn cymunedau amaethyddol. Mae'n gyfle euraid i gydnabod haelioni'r greadigaeth a'r ddealltwriaeth o Dduw yn nhermau 'Creawdwr a Chynhaliwr', ond hefyd i gael ein hatgoffa o beth yw ystyr 'stiwardiaeth gywir'. Mae'r Apostol Paul yn sôn am y greadigaeth yn ochneidio:

'Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw'  Rhufeiniaid 8:22

Mae hon yn adnod sy'n agored i gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd, a dyna sydd wedi digwydd ar hyd y canrifoedd. Ymhlith y dehongliadau hynny, sy'n cynnwys diffiniad o'r natur ddynol, ceir un ystyrlawn am greadigaeth sy'n disgwyl am adferiad. Wrth i'r natur ddynol brofi adferiad yng ngwaith cymodol Crist, felly'r hyn sy'n perthyn i'w fywyd, i'w bywyd. Nid creadigaeth berffaith yw'r greadigaeth yma yr ydan ni'n rhan ohoni ac nid perffeithrwydd sy'n nodweddu bywyd a pherthynas ddynol ond yn hytrach angen. Fe ddywedodd un esboniwr bod bywyd y greadigaeth yn gwichian o ganlyniad i'r craciau yna sy'n ymddangos mewn perthnasau a gweithredoedd, a bod yr alwad felly yn un am stiwardiaeth gywir a gwasanaeth.

Y mae'r flwyddyn yma yn flwyddyn Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ffocws 'Apêl Hadau Gobaith' yw gwaith Cymorth Cristnogol yng ngwledydd Kenya a Honduras gyda sylw arbennig i effaith newid hinsawdd. Mae'r plant a'r ieuenctid wrthi'n brysur yn hel arian mân i'w gosod ar ddarlun o flodyn haul a bydd y gwasaneth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn rhoi cyfle i ni ystyried ein cyfrifoldebau ac i ymateb mewn trugaredd. Yn ychwanegol, mae'r enwad wedi mabwysiadu Polisi Amgylcheddol a'r her i ni fel eglwys fydd gweld sut y gallwn weithredu'r polisi yna.

Ia, diolch am gynhaliaeth bywyd ond ar yr un pryd, boed inni ymgysegru o’r newydd i warchod byd a bywydau gyda’r ddealltwriaeth o gariad a thrugaredd, cyfiawnder a gwasanaeth.

Gwna ni yn dystion tra bôm byw
dros gariad Duw at ddynion;
eneinia ni â’th ras o hyd,
rho d’Ysbryd yn ein calon.

Mwynhewch yr Hydref!
Eifion

# Newyddion Ebeneser

## Cydymdeimlad . . .

Cydymdeimlwn yn ddwys â Hilda Williams a’r teulu ar farwolaeth ei phriod, sef Mr John Williams, Coedlan 3, Penparcau. Cydymdeimlwn hefyd â’u merched, Wendy a Siân a’u teuluoedd. Cynhaliwyd yr angladd yn Ebeneser o dan arweiniad ein Gweinidog, Eifion Roberts.

## Cofion . . .

Anfonwn ein cofion at Megan Morris sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod mis Awst cyn dychwelyd adref i ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed ym Maes y Môr.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yn Ebeneser brynhawn Sul, 16 Hydref am 2.15pm. Edrychwn ymlaen at weld y drysau ar agor unwaith eto ar brynhawn Sul.

# Newyddion Morfa

***Anfonwn ein cofion at*** Mair Griffiths, William Griffiths, Iola Jones, Dilys Milden a Megan Morris a fu yn yr ysbyty yn ystod yr haf ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal.

***Dymuniadau gorau a chroeso*** i Caryl a Paul Lawrence sydd wedi symud o Gaerdydd i'w cartref newydd yn Bryncastell, Bow Street, yn agos at Mary (Thomas), mam Caryl, ym Mhenrhyn-coch.

***Dymunwn yn dda*** i'r ieuenctid sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd mewn coleg, mewn gwaith neu wrth wynebu her newydd.

***Llongyfarchiadau . . .***

Ieuan ac Eluned Jones, ar enedigaeth eu gorwyres Eiry Lois, merch i Marc a Gwawr ac wyres i Meirion a Brenda Jones, Bronant.

Macsen Llywelyn a fu'n aelod o gôr *Only Boys Aloud* gyda Steffan Jones a Ioan Mabbut yn y cyngerdd yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.

***Cydymdeimlwn â*** . . . Shelagh Jones a'r teulu ar farwolaeth brawd Shelagh, John Bowen, Glyn Ebwy.

Glenys James ar farwolaeth ei chyfnither, Mrs Elizabeth Jenkins, Llanilar.

Hilda Williams ar farwolaeth ei phriod, Mr John Williams. Cydymdeimlwn hefyd â'r merched, Wendy a Siân a'u teuluoedd.

***Eisteddfod Genedlaethol Tregaron***

Llongyfarchiadau i Ioan Mabbut a enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth unawd i fechgyn o dan 19 oed.

Roedd nifer dda o'n plant a'n hieuenctid yn aelodau o barti a chôr Adran Aberystwyth a fu'n fuddugol mewn nifer o gystadlaethau, ac fe wnaethant ymuno ag aelodau o Adran yr Urdd Llambed i ganu yn y Gwasanaeth yn y Pafiliwn.

Llongyfarchiadau i Deian Creunant, Gwenda Sippings, Angharad Fychan ac Elin Haf Gruffydd Jones a urddwyd i'r Orsedd eleni yn Nhregaron. Hefyd i Deian am ei waith fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac i Bethan Bryn ac Owain Schiavone fel Llywyddion Anrhydeddus.

Anest Eirug a gyflwynodd y flodeuged ym mhrif seremonïau'r Eisteddfod eleni ac roedd Alys Davies a Nel Dafis yn aelodau o'r ddawns flodau. Llongyfarchiadau i'r tair ohonynt.

*Diolch* i'r aelodau o Gapel y Morfa a fu'n gwneud te a choffi ym mhabell Cytûn.

**Arddangosfa Cymdeithas Brodwaith Canolbarth Cymru**
Roedd arddangosfa ardderchog o waith brodwaith a chrefft i'w gweld yn Morlan ar 24 Medi. Roedd llawer o waith cywrain Elsbeth Lewis yn rhan o'r arddangosfa.

Mae Elsbeth hefyd yn aelod o'r dosbarth gwaith llaw sy'n cyfarfod yn festri'r Morfa ar brynhawn Mercher am ddau o'r gloch o dan arweinyddiaeth Jean Davies lle mae'r aelodau'n gwnïo, crosio a gwau ac yn cynhyrchu gwaith hyfryd. Mae'r sgwrs dros baned yn bwysig hefyd!


# Cinio Bara a Chaws

cymorth cristnogol

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, ddydd Llun, **10 Hydref rhwng 12.00–1.30pm.**

**Croeso cynnes i bawb**

# Dyddiadau i'w cofio . . .




**Cymdeithas y Morfa**

Nos Lun, **10 Hydref** am 7.00 o'r gloch yn y Festri
'O'r Aman i'r Ystwyth' yng nghwmni Glan Davies

---

Nos Lun, **24 Hydref** am 7.00 o'r gloch yn y Festri
Diolchgarwch a swper ysgafn yng nghwmni'r Parchg. Gwilym Tudur

---

**Dydd Sadwrn, 1 Hydref am 2 o'r gloch**

Cynhelir Cyfarfod Cenhadol chwiorydd yr Henaduriaeth yng Nghapel y Tabernacl, Tyddewi.
Anerchir gan Dr Rhiannon Ifans Penrhyn-coch.

---

## Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant Ieuan Gwyllt

Capel Penllwyn

**NOS SUL, 2 HYDREF 2022 am 5.00 o'r gloch**

Arweinyddion: Mrs Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths
Cyfeilydd: Mr Alan Wynne Jones
Dewch yn llu i ganu ac i rannu
Bydd rhaglen ar gael wrth y drws

**Duw Cyfiawnder**

Arglwydd, cyflwynwn i ti:



**ein llygaid** –
i weld angen y byd;

**ein clustiau** –
i wrando cri yr anghenus;

**ein lleisiau** –
i siarad drosot;

**ein calonnau** –
i fynegi dy gariad;

**ein dwylo** –
i weithredu cyfiawnder;

**ein bywydau** –
i fyw i'th wasanaethu.
Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

Cymdeithas Gweddi a Choffi –
bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom

Astudiaeth Ffydd a Phaned –
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

# Yr Ysgol Sul

Mae'r Ysgol Sul wedi cyfarfod bob bore Sul ers dechrau Medi ac erbyn hyn, mae'n ymuno unwaith eto â'r gynulleidfa yn y capel ar ddechrau'r gwasanaeth ar gyfer emyn, sgwrs a gweddi.

*Croeso'n ôl* oedd thema'r gwasanaeth y Sul cyntaf ac roedd y gweithgareddau crefft yn yr Ysgol Sul yn seiliedig ar stori'r Mab yn dychwelyd adref o bell a chael croeso a drws agored gan ei dad.

Y Suliau canlynol, wrth baratoi at ein Gwasanaeth Diolchgarwch, dewiswyd stori *Duw yn creu'r byd* fel sail i'r gweithgareddau gan holi a ydym ni'n gofalu am fyd Duw?


Aethom ar daith i ben Craig Glais (Consti) ar y Sul olaf a chael cyfle i ryfeddu at harddwch y golygfeydd a mwynhau'r gweithgareddau hwyliog ar ôl cyrraedd.




Mae'r lluniau'n dangos yr amrywiaeth a'r hwyl a gawn o Sul i Sul. Cofiwch, mae bob amser groeso a drws agored i bawb – beth am ymuno â ni y tro nesaf?








# Grŵp Ieuenctid yr Ysgol Sul

DIOLCH i bawb sydd wedi helpu i lenwi'r blodyn haul gydag arian mân ac am y brwdfrydedd yn casglu a chyfrannu. Mae'r ieuenctid yn parhau i dderbyn unrhyw beth o geiniogau i ambell bunt dros yr wythnosau nesaf ar gyfer apêl yr Eglwys tuag at Gymorth Cristnogol.

Faint o arian fydd ar y blodyn erbyn y diwedd? **Rhowch eich cynigion i Olygyddion Perthyn erbyn 1 Tachwedd**. Bydd gwobr i'r cynnig agosaf.



# DALEN WAG . . .

Onid ydy dalen wag yn beth dychrynllyd?

Onid ydy gwacter fel *vacuum* yn mynnu cynnwys? Distawrwydd yn mynnu sŵn? Dalen a chynfas yn mynnu geiriau a lliwiau? Tawelwch yn tynnu cân neu sgrech neu sgwrs?

Mae yna gyfansoddwyr wedi arbrofi gyda thawelwch. Dyna i chi '4:33' (1952) gan John Cage. Darn mewn tri symudiad, ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau, yn cynnwys cyfanswm o 4 munud 33 eiliad o dawelwch. Mae nifer o artistiaid gan gynnwys Andy Warhol, Yves Klein a Yoko Ono wedi creu gweithiau anweledig, ac fe wnaeth Oriel yr Hayward yn Llundain arddangos 50 ohonyn nhw ddegawd yn ôl a chodi £8 ar bobl i fynd i mewn i'w gweld nhw.

Ond dros yr wythnosau diwethaf yma mae dalen wag fel petai hi wedi troi'n fath o gwlwm athronyddol torfol.

Sôn ydw i wrth gwrs am y protestwyr mud oedd yn dal darnau glân o bapur yn y digwyddiadau torfol yn dilyn marwolaeth y frenhines Elizabeth II.

Be oedd i gyfri eu bod nhw'n mynnu'r fath sylw? Roedd pobl yn ymateb yn ffyrnig i'r gwacter, plismyn yn bygwth arestio pobl ar gownt yr hyn *allai* lenwi'r gwynder. Pobl oedd wedi dal darnau o wacter yn gyhoeddus yn cael eu dilyn gartref gan swyddogion diogelwch.

Mae'n rhaid cydnabod bod y cyd-destun yn allweddol. Fel mae cerddorfa sydd ddim yn perfformio neu gynfas gwag mewn oriel, yn hytrach nag mewn siop, yn gwneud datganiad, roedd darn o bapur gwag mewn digwyddiad torfol lle'r oedd disgwyl dim llai nag unffurfiaeth, yn gwahodd ymateb.

Ond eto roedd natur yr ymateb yn ddiddorol. Roedd y ddalen wen fel drych i farn neu ragfarn y dorf. Roedden nhw'n ymateb i beth roedden nhw'n *ddychmygu* fyddai ar y ddalen. Roedden nhw'n dychmygu rhywbeth gwrth-frenhinol, amharchus, fyddai'n tarfu ar yr heddwch. Ond tra bod y 'protestiadau' yn taro ar yr unffurfiaeth, yr ymateb, yn amlach na pheidio, oedd yn tarfu ar yr heddwch.

Neu tybed a oes modd gweld y ddalen wen fel drych i gydwybod? A oedd y dorf yn gwybod be oedd y cyhuddiadau ynglŷn â chyfoeth a gwariant mewn dyddiau o gyni, am olyniaeth freiniol mewn gwladwriaeth ddemocrataidd sydd wedi gyrru pobl ifanc i farw dros ddemocratiaeth mewn gwledydd eraill? Dyna, mae'n debyg, oedd y cyd-destun yn ei wahodd.

Ond tybed be fyddai'r ymateb petaen ni'n sefyll ar y stryd, y tu allan i'n capeli efallai, yn dal dalen wag? Sut fyddai'r dorf fyddai'n pasio'n ymateb? Be fyddai eu barn, neu ragfarn nhw? Be fyddai eu cydwybod nhw'n ddweud? A fydden nhw'n sgrechian neu'n chwerthin? Neu efallai na fydden nhw'n gwybod be ar wyneb daear oedden ni'n sefyll drosto?

Tybed sut fydda hi petawn i'n gofyn i'r golygydd osod gofod gwag â'r geiriau 'Colofn Rocet Arwel Jones' uwch ei ben o yn lle'r golofn yma yn y rhifyn nesaf? A fyddai angen i mi sgwennu unrhyw beth? Neu a fyddech chi'n gwybod yn syth – ai dyma'r math o beth mae hwn yn sgwennu. Dyna'i ragfarnau o. Dyna fy marn innau.

Tro nesa efallai?

Rocet Arwel Jones

# Encil Sasiwn Genhadol y De

Cynhaliwyd yr Encil a arferid ei chynnal yn Nhrefeca yng Ngwesty Llwyn Iorwg, Caerfyrddin ar 22 Medi. Daeth dros ddeg ar hugain ohonom ynghyd o ardaloedd yn nhair Henaduriaeth y de.

Arweiniwyd y diwrnod gan yr Archddïacon Eileen Davies o Lanllwni. Hawliodd ein sylw o'r dechrau gyda'i dull effeithiol a chartrefol o gyfathrebu. Wrth ddechrau ei chyflwyniad holodd pa adran o'r Beibl sydd yn rhoi arweiniad i ni ac yn ein cynorthwyo o ddydd i ddydd. Dyna fyddai hi'n gofyn i ni ei ystyried yn ein grwpiau yn y prynhawn. Wrth gyflwyno adnodau o Efengyl Mathew, Pennod 5, sef 'Chwi yw Goleuni'r byd' a 'Chwi yw halen y ddaear', ei neges i ni oedd y dylid gweithredu'r geiriau sydd yn y Beibl yn ein bywydau bob dydd.

Gyda hynny mewn golwg y sefydlodd Eileen Davies yr elusen Tir Dewi gyda chefnogaeth Esgob Tyddewi ar y pryd, er mwyn rhoi cymorth a chyngor i amaethwyr a gweithwyr yn y sector amaethyddol, gan roi clust i wrando iddynt. Erbyn hyn mae Tir Dewi yn gwasanaethu Cymru gyfan ac mae aelodau o dîm cynghori Tir Dewi ym mhob rhan o Gymru.


Roedd grwpiau'r prynhawn yn rhoi cyfle i rannu adnod, emyn a phrofiad ac roedd hyn yn ogystal â'r cyfnod o weddi tawel yn cyfoethogi'r diwrnod.

Cyflwynodd Sarah Morris y llyfryn newydd am eleni *Gobaith yn Iesu – Yr Alffa a'r Omega* sy'n cynnwys gwasanaethau, astudiaethau, prosiectau elusennol yr ydym yn eu cefnogi yn Romania, Mizoram, Uganda a Lesotho a phrosiectau crefft newydd – megis gwau neu wnïo matiau sensori a gwau bŵtis babanod i'r elusen 'Baby Basics'*. (Os oes rhywrai yn dymuno cael y patrymau, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.)*

Cawsom ein cyflwyno i raglen *Golud* Eglwys Bresbyteraidd Cymru – *Byw gyda Dementia* a dysgu am waith *Ffrindiau Dementia.* Mae'n llyfryn arbennig sydd wedi ei gynhyrchu gan swyddogion Adran y Chwiorydd. Mae'n cynnwys penillion o emynau, adnodau a lluniau o leoedd adnabyddus yng Nghymru ac mae cynllun ar y gweill hefyd i gynhyrchu CD o emynau sydd wedi bod yn gyfarwydd i ni ers bore oes.

Cawsom fendith o'r Encil eto eleni. Roedd yn gyfle i gymdeithasu, i rannu, i ddysgu a chael ein herio wrth ymadael a dychwelyd i'n heglwysi.
Eleri Davies a Dilys Lloyd

**Hoff Emynau'r Cymry**
Casglwyd gan Robert Nicholls
Cyhoeddiadau'r Gair
ISBN: 9781859948910
£8.99




Dyma gyfrol lle mae Robert Nicholls wedi gwahodd 64 o Gymry adnabyddus i rannu eu hoff emyn. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cyflwynydd teledu Huw Edwards, y bytholwyrdd Dafydd Iwan a Margaret Williams, yn ogysal â rhai o ffigurau blaenllaw byd crefydd yng Nghymru heddiw, fel D. Densil Morgan, Judith Morris a Beti-Wyn James. Pwy sy'n rhannu eich hoff emyn chi, tybed?

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfri Facebook

# ‘Mae cariad Crist yn annog y byd i gymod ac undod’



**Dyma ddyddiadur Gwen Down a oedd yn stiward yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd yn Karlsruhe yn yr Almaen**

**25 Awst**

’Doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth i’w ddisgwyl wrth i mi gyrraedd Karlsruhe ddoe ar gyfer Cymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd - roeddwn i wedi cael sawl cyfarfod Zoom gyda’r cant a hanner o stiwardiaid eraill o bob rhan o’r byd. Ond wedi cyrraedd, a chyrraedd y gwesty, roedd hi’n syndod pa mor sydyn y daethom ni i gyd i adnabod ein gilydd a gweithio gyda’n gilydd. Roedd nifer o’r stiwardiaid yn hŷn nag oeddwn i yn ei ddisgwyl – a dweud y gwir rydwi’n meddwl mod i ymysg yr ieuengaf o bawb. ’Doedd dim ots am hynny – yn fuan iawn mi ges i sgyrsiau difyr efo darpar weinidog hoyw o Ganada, aelod o eglwys Uniongred Rwsia, criw difyr iawn o Dde Affrica, dim ond i enwi rhai. Roedd hi’n dda o beth ein bod ni’n gallu cydweithio oherwydd yn fuan iawn daeth yn amlwg fod stiwardio yn golygu oriau hir a lot fawr o waith, yn enwedig gan fod rhai stiwardiaid wedi methu cael *visa* er mwyn dod i’r Almaen. Roedd y dyddiau cynta yn argoeli’n dda.

**29 Awst**

Mae Karlsruhe yn ddinas braf ac mae pob diwrnod yn cychwyn, yn gynnar iawn, gyda thaith ar y tram o’r gwesty i’r ganolfan gynadledda. Rydw i wedi cyrraedd yma wythnos cyn i’r Gymanfa ddechrau ar gyfer cynhadledd ieuenctid ac mae angen paratoi ar gyfer y Gymanfa ei hun. Daeth yn amlwg iawn yn y gynhadledd ieuenctid fod pawb yn ystyried eu ffydd fel rhywbeth hynod bwysig iddynt ond nid rhyw ffydd sych ddiflas oedd hon. Roedd hi’n gynhadledd llawn hwyl a chwerthin a chanu tra hefyd yn trafod

materion fel newid hinsawdd, cydraddoldeb hil a rhyw a rhyfel a heddwch, ac er bod yna rywfaint o anghytuno roedd pawb yn cyd-dynnu ac yn parchu ei gilydd. Roedd e'n brofiad da.

**1 Medi**

Mae'r gynhadledd wedi dechrau. Mae miloedd o bobl yma, a rydw i wedi bod yn chwilio am y Cymry. Rydw i wedi gweld rhai yn barod a chael ambell sgwrs. Mae pawb yn edrych ymlaen. Rydw i wedi cael fy ngosod i stiwardio yn y neuadd fawr. Ar adegau byddaf yn gofalu am un o'r meicroffonau ar gyfer y cynrychiolwyr. Maen nhw eisoes wedi dweud wrthym y gall y trafod fynd yn boeth a bod y stiward ar y meic yn gorfod bod yn bendant iawn pan fydd pobl yn mynnu siarad yn hir. Ond y fantais fawr yw y byddaf yn y neuadd pan fydd y trafod mawr yn digwydd. Mae cynrychiolwyr o Rwsia ac o Wcráin yma. Maen nhw wedi eu gosod cyn belled â phosib oddi wrth ei gilydd. Dwi'n siŵr y bydd y drafodaeth ar y rhyfel yn un fywiog iawn.

Dyma fy ail ddydd Iau mewn du. Rydym ni yn gwisgo du bob dydd Iau oherwydd ymhob gwlad mae trais ar sail rhywedd yn realiti trasig iawn. Mae'r trais hwn yn aml yn guddiedig ac mae'r dioddefwyr yn dawel ac yn ofni stigma ac yn ofni trais pellach. Mae dros 30% o fenywod yn dioddef trais corfforol neu rywiol gan bartner neu rywun agos yn ystod eu hoes. Mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi penodi dydd Iau fel diwrnod i wisgo du er mwyn dangos ein bod ni yn sefyll gyda'r menywod neu'r bobl yma sydd wedi cael eu heffeithio. Mae yna waith celf yn hongian yng nghefn un o'r prif neuaddau, tapestri sydd yn adlewyrchu profiadau menywod o bob rhan o'r byd. Mae yna gant wyth deg un stori wedi eu pwytho yn stribedi lliwgar sydd yn symud yn yr awel pan fydd pobl yn mynd heibio. Artist o Frasil, Janine Marja Schneider sydd wedi pwytho'r gwaith, ac roedd hi'n dweud ei bod gyda phob pwyth yn uniaethu gyda dioddefaint y menywod.

**6 Medi**

Mae na dipyn bach o anniddigrwydd yn y gynhadledd – yn enwedig yn ein plith ni bobl ifanc. Mae'r Cyngor yn dweud eu bod eisiau

clywed lleisiau pobl ifanc ond wrth ethol eu pwyllgor gwaith maen nhw wedi methu hyd yn oed cyrraedd eu nod eu hunain.  Dim digon o bobl ifanc, dim digon o ferched, dim digon o bobl yn byw efo anableddau. Roedd cryn anniddigrwydd ac fe ddaeth tua dwsin o bobl ifanc at y meicroffon eisiau siarad. Ond cyhoeddwyd o'r llwyfan nad oedd amser i'r un ohonynt siarad.  Yn y diwedd fe gafodd un ferch o Frasil gyfle i siarad am funud yn unig.  Mae pawb yn pwysleisio fod rhaid gweithredu yn hytrach na siarad yn unig ond heddiw doedd na ddim cyfle i siarad hyd yn oed. Doedd y Cyngor ddim yn gweithredu ei bolisi ei hun!

Ond a bod yn deg â'r Cyngor, yr eglwysi sydd yn rhwystro'r newid. Nid yw eglwysi yn anfon cynrychiolwyr ifanc i'r Gymanfa. Pe bai



eglwysi o ddifri ynghylch cael cynrychiolaeth deg o ferched, pobl ifanc a phobl yn byw ag anableddau, byddai'r cynrychiolwyr yn adlewyrchu hynny. Tybed nad oes yn rhaid i eglwysi Cymru a phob gwlad arall ddechrau ymddwyn fel eglwysi sydd yn credu mewn cydraddoldeb rhyw a rhai sydd am glywed lleisiau pobl ifanc?  Ymhen wyth mlynedd pan gynhelir y Gymanfa nesaf efallai y bydd gan Gymru gynrychiolwyr ifanc yn ogystal â chynrychiolwyr arferol ac y gall y Cyngor wedyn ddewis Pwyllgor Gwaith gwir gynrychioliadol.

**7 Medi**

Y ddau ddiwrnod diwetha' wedi bod yn brysur iawn ac mae'r stiwardiaid i gyd wedi blino'n lân. Mae lot o drafod go fywiog wedi bod wrth geisio cael consensws ar ddatganiad ar ryfel Wcráin. Mae'r gynhadledd yn gweithio ar gonsensws yn hytrach na phleidlais o blaid ac yn erbyn.  Rhaid cael cydsyniad pawb ac mae hynny'n gallu bod yn broses araf. Roedd yna deimladau cryf iawn yn cael eu mynegi am y datganiad ar y Dwyrain Canol.  Roedd esgob o un o eglwysi'r Almaen

yn daer yn erbyn defnyddio'r gair apartheid wrth ddisgrifio agweddau o fewn Israel tuag at Balestiniaid. Roedd yn cyfeirio at sensitifrwydd yn yr Almaen oherwydd yr atgof am yr Holocaust. Yn y diwedd roedd rhaid cael datganiad oedd yn dweud fod yna anghytuno yng nghylch y term ac na ellid dod i gytundeb yn ei gylch.

**8 Medi**

Gwisgo du unwaith eto. Mae'r gynhadledd yn dod i ben – ni fyddaf yn colli'r teithiau tram am 7:00 y bore! Ein dyletswydd olaf oedd stiwardio cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwaith newydd – 150 o aelodau ac yn eu plith yr Esgob Gregory Cameron, Esgob Llanelwy. Fe siaradodd amryw o weithiau yn y cyfarfod ond nid oes hawl i rannu dim a ddigwyddodd yn y pwyllgor.

Rhaid i mi deithio i Frankfurt heno i gychwyn fy nhaith am adref. Ond daeth pawb o'r stiwardiaid at ei gilydd mewn bwyty yn y ddinas yn gyntaf ac roedd llawer iawn o siarad, chwerthin a cholli dagrau wrth ffarwelio. Mae'r cyfan wedi bod yn brofiad gwych. Rydw i wedi cyfarfod ac wedi gweithio gyda phobl amrywiol iawn; mae gen i ffrindiau o bob rhan o'r byd ac rydw i'n deall ffydd fel rhywbeth llawer iawn mwy amlochrog. Rydw i'n deall yn iawn nad oes ffordd i ni gytuno ar bopeth drwy'r amser a gallaf ddathlu fod amrywiaeth yn rhan o'n ffydd ni. Rydw i'n deall yn well hefyd sut mae ffydd yn help i ni ddeall ein cyfrifoldeb am y byd ac am ein gilydd. Adref nawr gan edrych ymlaen at dipyn bach mwy o gwsg.



Dyma'r cynrychiolwyr o Gymru – sef Ainsley Griffiths, Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod, yr Eglwys yng Nghymru; Anna Jane Evans, gweinidog Seilo Caernarfon; Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.



# Gorwelion Newydd:
# Cynhadledd flynyddol 2022

Canolfan y Morlan, Aberystwyth

10.30yb – 3.30yp, dydd Sadwrn 22 Hydref 2022

Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'r dyfodol.

Byddwn yn trafod dwy o'n themâu gweithredol cyfredol:

- Capeli a chartrefi
- Cydweithio mewn cenhadaeth

**Cyfranwyr:**

Dafydd Iwan, John Roberts, Pryderi Llwyd Jones,
Cris Tomos, Luned Voyle, Gareth Ioan a mwy.

Pris, gan gynnwys coffi a chinio – £25 i'w dalu ar y dydd.

Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:
cristnogaeth21@gmail.com
cyn ddydd Llun, 17 Hydref.

Cyfarfod blynyddol C21 i'w gynnal am 3.00yp.

## Blodau Mis Hydref



**2 Hydref**: Mary Ceinor Jones
**9 Hydref**: Ellen Llwyd Evans a Huw Evans
**16 Hydref**: Gwyneth Clwyd a Carys Davies
**23 Hydref**: Nia Royles
**30 Hydref**: Margaret Stephens, Dolig Farrell
ac Ann Griffiths

*Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ar y rhestr tan ddiwedd y flwyddyn.*

## DYDDIAD I'W GOFIO
## Bore Sul, 16 Hydref am 10.00 o'r gloch
## Apêl HADAU GOBAITH Cymorth Cristnogol

Brecwast yn y Festri o 9 o'r gloch ymlaen (Brecwast iach!)
a Gwasanaeth Diolchgarwch o dan ofal yr Ysgol Sul am
10.00 o'r gloch yn y Capel.
Gwerthfawrogir cyfraniadau at Apêl Hadau Gobaith

Croeso cynnes i bawb.

## SULIAU HYDREF 2022

2 Hydref – Eifion Roberts – **Gwasanaeth teulu** yn y capel ac ar Zoom
9 Hydref – Elwyn Richards – yn y capel ac ar Zoom
16 Hydref – Eifion Roberts – Gwasanaeth Diolchgarwch y plant
23 Hydref – Sandra Morris Jones – yn y capel ac ar Zoom
30 Hydref – Eifion Roberts

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch. Os ydych yn methu dod i'r capel gellwch gael dolen Zoom drwy gysylltu ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com

Diolch i *Cennad* am gael cynnwys peth deunydd yn y rhifyn hwn.